# CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

## COFNODION CYNGOR 3 MAWRTH 2009

**Presennol**
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng M P Jones

**Cynghorwyr**
H W Roberts, R Anderson, O T Owen, I C Thomas, A Y Williams, A W Bohana, G Parry, A Kirk, R Bonner Pritchard, M Thomas, W Ll Dav ies, A Roberts

## Gweddïau
Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Caplan y Maer Parch G Williams

### 1. Ymddiheuriadau
M Davies, W T Owen, W R Owen

### 2. Cyhoeddiadau'r Maer
- Noson lansio ty bwyta Tai Laan Maveena
- Noson dathlu Dydd G wyl Dewi yn Clwb Cefnogwyr Peldroed
- Cinio Dydd Gwyl Dewi gan Rotary

### 3. Datgan Buddiant Personol
I C Thomas – Cynllunio
H Edwards Cynllunio

### 4. Eitemau Brys
Enwebiad ar gyfer Galeri
Diweddariad o Pwyllgor Adloniant parthed Pasg

### 5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 3 Chwefror 2009
ii. Panel Cyllid a Staff 10 Chwefror 2009
iii. Pwyllgor Cyffredinol 17 Chwefror 2009

**Penderfynwyd**
Derbyn fel cofnodion cywir , a'r roi'r hawl i weithredu yn y Pwyllgor nes af ar eitem Doc Fictoria yn dilyn y cyfarfod brys

## 6. Cynllunio

I ystyried y ceisiadau
**Penderfynwyd**
Anfon rhestr o argymhellion i'r awdurdod priodol

## 7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
**Penderfynwyd**
Derbyn a'u talu

## 8. Cysoni Cyfrifon

**Penderfynwyd**
Derbyn er gwybodaeth

## 9. Maerolaeth 2009 – 2010

I dderbyn ymateb ymweliad y Cyng. I. C. Thomas y cynigydd, a'r Cyng. H. Edwards yr eilydd a'r Maer Etholedig y Cyng. H. W. Roberts
**Penderfynwyd**
Wedi cael noson pleserus dros ben, ac yn derbyn y swydd yn swyddogol - llongyfarchiadau i Cyng H W Roberts . Cyng H W Roberts yn gofyn caniatâd y Cyngor i newid y dyddiad ymlaen i Mai 14 a cytunodd pawb.

## 10. Maerolaeth 2009 – 2010

I enwebu Dirprwy Faer Etholedig am y flwyddyn 2009 – 2010
**Penderfynwyd**
Ethol Cyng H Edwards fel Dirprwy Faer am y flwyddyn 2009-2010

## 11. Rhybudd o Gynnig Cyng. A. Roberts

Par: Baw cwn
**Penderfynwyd**
Symud i'r Pwyllgor Cyffredinol Nesaf

**12. LCRS**

Asesiadau risg
Clerc yn egluro mai mater a drafodwyd mewn cyfarfod diweddar o Cangen Clercod Gwynedd oedd hwn ac bod cynghorau mwy eraill yn ei ffeindio werth chweil. Mi fydd yn ddefnyddiol iawn wrth symud ymlaen a pethau o Cyngor Sir e.e toiledau cyhoeddus ag ati

**Penderfynwyd**
Symud ymlaen i brynu

**13. Cyngor Gwynedd**

Gwahoddiad i weithdy gefeillio – 'canllaw bras i raglen Dinasyddiaeth yr UE 2007 – 13 ar gyfer Cymunedau Cymreig'

**Penderfynwyd**
Rhoi y manylion i'r Pwyllgor Gefeillio gan ei fod yn briodol iddynt hwy

**14. Wyntock**

Iechyd a Diogelwch i Gynghorau Cymuned
Clerc yn egluro bod hwn yn llawer iawn mwy cynhwysfawr na beth sydd yn cael ei dderbyn ar hyn o bryd. Mi fyddai yn ddefnyddiol iawn wrth symud ymlaen a pethau efo Cyngor Sir

**Penderfynwyd**
Symud ymlaen i brynu

**15. Cyngor Gwynedd**

Mannau parcio oddi ar y stryd 1997 Gorchymyn Amrywio (Canolfannau Hamdden a Safleoedd Eraill) 2009

**Penderfynwyd**
Anfon rhestr o gwestiynau Hywel i Cyngor Sir –gweler atodiad, a llythyr i'r Prif weithredwr yn nodi pryderon o ddiffyg cysylltu rhwng adrannau Cyngor Sir

## 16. E-bost Cyngor Gwynedd

Parthed enw ffordd newydd

**Penderfynwyd**

I argymell yr enw Lon Cwrt Segontium

## 17. Diweddariad Partneriaeth Caernarfon

Cyng. I C Thomas

Cynllun Parcio – bod cwmni ymgynghorol wedi bod i mewn i wneud gwai th ymchwil. Darganfod ar gyfartaledd bod digon o lefydd parcio yn y dre ( trafferthion yn ystod yr haf) , a bod angen edrych i mewn i system golau o ryw fath i 'r gyrwyr weld yn syth os oes na le

Digwyddiadau ar y maes - pryderon ynghylch a cerbydau yn parci o a tacsis lle nad ydynt fod

Pecyn i gefnogi sector man werthu, lle bydd grantiau ar gael hyd at £5000 i'r sawl sydd yn fodlon rhoi arian eu hunain i wneud gwelliannau

Rheilffordd yn mynd i agor hyd at Beddgel ert 7fed o Ebrill gan obeithio cwblhau'r daith i Borthmadog erbyn diwedd yr Haf

Cynllun Adfywio ffisegol y Dre - Mae cyflwr israddol rhannau amlwg a phwysig o'r dref yn groes i weledigaeth o sefydlu Caernarfon fel cyrchfan o ansawdd ac yn le atyniadol i fyw, gweithio, siopa ac ymweld

Yr Elfennau canlyn ol sydd wedi eu hadnabod fel agweddau i'w ymgorffori i'r cynllun arfaethedig

- Gwelliannau Amgylcheddol ar hyd Stryd Llyn
- Ardal Pendist
- Gwelliannau amgylcheddol ac addasiadau rheoli/llif traffig ar hyd prif strydoedd ac ardaloedd masnachol gan gynnwys Stryd Bangor, Bont Bridd a Penllyn
- Gwelliannau amgylcheddol, addasiadau rheoli/llif traffig ynghyd a gwell cyfleusterau cludiant cyhoeddus/gorsaf bws ar Penllyn
- Adolygiad llawn o'r strategaet h rheoli traffig a darpariaeth p arcio ar gyfer y dref

**Penderfynwyd**

Derbyn a diolch am yr adroddiad

## 18. Rhybudd o Gynnig Cyng. A. Roberts

Par: TCG

**Penderfynwyd**

Symud i'r Pwyllgor Cyffredinol nesaf

**19. Rhybudd o Gynnig Cyng. I. C. Thomas**

Par: Y Gwarchodlu Cymreig (trafodwyd ar y noson oherwydd amseriad y cynnwys)

**Penderfynwyd**

Derbyn cynnwys y rhybudd a g anfon llythyr gan estyn gwahoddiad i gynrychiolydd ddod i'r Cyngor i'w dderbyn. Clerc angen ymchwilio i mewn i pa bryd mae 'r Ffiwsilwyr Cymraeg yn mynd hefyd er mwyn gwneud yr ru'n fath

**20. E-bost Dylan Jones**

Par: Cysodfannau bysus

**Penderfynwyd**

Parhau a'r trefniant presennol o gyflogi rhywun lleol, ond diolch am y sylwadau

**21. Cyngor Dinas Gaer**

Gwahoddiad i lansio 'Portico'

**Penderfynwyd**

Diolch am y gwahoddiad

**22. Cyngor Gwynedd Adran Trwyddedu**

Caernarfon Burger and Kebab

**Penderfynwyd**

Gwrthod ar sail amhariaeth s wn

**23. Rhybudd o Gynnig Cyng. Hywel Roberts**

Par: Carchar

**Penderfynwyd**

Symud i'r Pwyllgor Cyffredinol nesaf

**24. Rhybudd o Gynnig Cyng. Hywel Roberts**

Par: Caernarfon & Denbigh Herald

**Penderfynwyd**

Derbyn cynnwys y Rhybudd a g anfon dau lythyr ( ni pleidleisiodd Cyng A Y Williams)

## 25. Cwestiynau

Ydi'n wir bod Cyngor Sir yn bwriadu cosbi ceir am barcio gan ddefnyddio CCTV?

## 26. Galeri

Angen cynrychiolydd newydd ar Bwrdd Galeri yn lle Mair Williams

**Penderfynwyd**

Ethol Cyng. W Ll Da vies

## 27. Pwyllgor Adloniant

Mae'r Pwyllgor adloniant yn dymuno trefnu digwyddiad Dydd Llun Pasg ac angen caniatâd y Cyngor i symud ymlaen.

Ddwy gystadleuaeth – un i greu Bonnet Pasg Oed Cynradd, Uwchradd ac Oedolion. Gwobrau £15,£10 a £5 ac yna helfa drysor o amgylch y siopau i chwilio am g yw coch-enillydd yn curo Wy Pasg Mawr, Canolig a Bach

Bowlenni o wyau bach i'w dosbarthu ar y diwrnod

**Penderfynwyd**

Symud ymlaen a'r trefniadau priodol

Gorffennodd y cyfarfod am 7.35

Arwyddwyd..... ..... Dyddiad.....